

## Y Diweddaraf am Fynwent Bryn y Bedd

Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan wrthi'n brysur yn cwblhau Cam 2 o'r prosiect adfer ym Mynwent Bryn y Bedd. Bu i Wasanaethau Coed ALFA gael gwared ar yr holl goed leylandii ger pen gogleddol y fynwent. O ganlyniad, mae'r safle yn llawer mwy agored a dymunol erbyn hyn gyda golygfeydd godidog o Foel Siabod.



Caiff cennin pedr eu plannu yn yr hydref eleni a bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn darparu coed brodorol er mwyn cau pen y mwdwl ar Gam 2.

Mae Cam 3 ar waith erbyn hyn ac fe dderbyniwyd grant gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, drwy Grant Datblygu Cymunedol Gwledig Cymru CBSC. Mae'r cam hwn yn canolbwyntio ar drwsio'r pedair mainc haearn gyr, y giatiau haearn, pyst y giatiau, rhan o wal y fynwent ac ailwampio'r ddau blac llechi. Mae Cyngor Cymuned Dolwyddelan yn edrych ymlaen at pan fydd y cam hwn wedi'i gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn.

*Connie Brewer*



## Y Gwydyr

Rydym yn cynnig bwyd cartref pob dydd, o  
12.00 - 4.00, ac eto o 5.30 - 8.30

### I ddechrau

Cawl y dydd – Madarch mewn saws Garleg –  
Bara Garleg – Talpiau Tatws blas Tsili

### Prif Gwrs

Gamon – Lasagne – Lasagne Llysieuol – Tsili – Cacennau Pysgod  
– Byrgyrs (cig oen, cig eidion neu lysieuol) – Pastai Tatws Stwnsh

Ynghyd a phrydau arbennig, bwydlen i blant a bwydlen pwdinau.

Byddwn yn cynnig ein cinio Nadolig ar Ragfyr y 4<sup>ydd</sup>, 11<sup>eg</sup> a'r 18<sup>fed</sup>  
(gyda gwin cynnes a mins peis).

Cadwch lygaid ar ein tudalen Facebook am ddigwyddiadau arbennig.

I gadw lle, ffoniwch 07824 756 068